# DINESYDD
## Gorffennaf

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1981
RHIF 79


# GWARTH CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD




Mae'r Dinesydd yn y sefyllfa ardderchog erbyn hyn o fod yn derbyn cymaint o newyddion a phigion fel bod yn rhaid dewis a dethol a gadael rhai erthyglau a rhai pytiau tan y mis nesaf er bod hyn yn mynd yn groes graen i'r Pwyllgor Cydolygyddol sy wrth ei fodd yn derbyn storiau o bob cyfeiriad.

Dyna fu hynt y sylw a wnaed gan ohebydd ar rai benawdau a welwyd yn y Cardiff Journal yn ddiweddar. Mae'n amlwg erbyn hyn y byddai'r sylw wedi bod yn amserol iawn yn wyneb datblygiadau diweddar er y gallaf glywed rhai o ddinasyddion eangfrydig Caerdydd yn dweud "Beth yw'r holl ffys am y Sherman ar nos Sul beth bynnag. Mae hyn i gyd yn digwydd ar ôl oriau'r capel".

Erbyn hyn mae'r sefyllfa yn y ddinas wedi gwaethygu myrdd. Cawn ar ddeall ei bod hi'n fwriad gan Glwb Rygbi Cymry Caerdydd o bawb i drefnu chwaraeon i'n bechgyn ifancaf yn y ddinas ar FORE DYDD SUL. Sut maen nhw'n beiddio, wn i ddim, yn gwybod bod galwad ADDOLI ar fore dydd Sul a bod hyfforddi'r genedl yn sylfeini'r ffydd Gristnogol o lawer mwy o fudd nag unrhyw sesiynau hyfforddi y gall Clwb Rygbi Cymry Caerdydd eu cynnig.

Ryn ni, ddinasyddion Caerdydd, wedi hen arfer â gorfod ymwrthod ag arferion Seisnig; parchu arferion yr Iddewon a'r Catholigion ac ymlochesu yn y PETHAU sy wedi cadw'r genedl Gymreig yn fyw. Ein parch at yr Efengyl a Sul y Crist Atgyfodedig oedd un o'r rheiny. Mae'n amlwg bod dinasyddion newydd llawer mwy meddal yn dod i fyw aton ni. Peidied neb â meddwl nad chwaraewyr caled rygbi penigamp oedd tadau'r dinasyddion Cymreig chwaith. Ni fyddent hwy serch hynny yn MEDDWL am droi bryd ein pobl ifanc at chwarae bach ar ddydd yr Arglwydd.

Mae Emrys ap Iwan wedi pregethu'n ofer at rai ohonom mae'n amlwg. "Dynwaredwch y genedl nesaf atoch yn y pethau mae'n rhagori arnoch" a ddywedodd ef.Ryn ni wedi meithrin chwaraewyr rygbi gwell na'r Saeson erioed heb fyth annog ein bechgyn ifanc i chwarae ar y Sul.

Bu dinasyddion Caerdydd yn ddygn a brwd yn sefydlu Clwb Rygbi Cymry Caerdydd ac fe feithriniwyd cefnogaeth aruthrol iddo ers y dyddiau cynnar. Dyna sefydlu sy wedi troi'n chwerw hollol wrth glywed yr hyn sy yn eu bryd ar gyfer tymor y Gaeaf.Gobeithio'n wir eu bod yn ddynion gwell na maen nhw'n ymddangos ac y newidiant eu bwriad cyn i lawer ohonom ymrestri mewn rhengoedd i'w gwrthwynebu.

ETHNI JONES.


**GWYLIAU YN ISRAEL**

TIBERIAS A JERUSALEM

MEDI 16 - 23

Hedfan o Gaerdydd.

**BETH AM YMUNO ?**

ARWEINYDD : Parch. Cynwil Williams

Ffoniwch yn ystod y dydd: 494376 a 485956
gyda'r nos: 487214 a 490287

**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

GWELY A BRECWAST
BWYD A GWIN DA

TRWYDDED PRESWYL

# BRYD AR Y BOCED — GAIR YN EI BRYD

Newyddion ardderchog i drigolion Caerdydd oedd clywed am benodi Mike Tucker yn Drysorydd yr S4C.

Syndod inni oedd gweld pwysleisio mai dysgwr oedd Mike gan ein bod ni bellach yn gwybod mai Cymro Cymraeg trylwyr iawn ydyw. Un o gyn-ddisgyblion enwog Mr. Elvet Thomas yw a phan oedd yn yr ysgol yr un pryd a Gilbert Ruddock, darlithydd yn y Gymraeg yn y Brifysgol a Rhys Lewis, cynhyrchydd rhaglenni teledu BBC, doedd e ddim yn peidio a synnu'i athro a'i allu ieithyddol.

Aeth ymlaen i Goleg y Brifysgol Caerdydd ac yno graddiodd yn ddisglair mewn Economeg. Ers hynny bu'n gweithio gyda Chyngor De Morgannwg a dyw hi ddim yn syndod inni bellach ei weld yn derbyn yr her a thaflu coelbren gyda S4C.

Mae'n briod â merch o Faesteg sy'n gweithio gyda'r ysbyty mewn cysylltiad â phlant bach cyn oedran ysgol sy'n dangos tueddiadau araf i ddysgu.

Etholwyd criw o gynghorwyr sirol i Dde Morgannwg fis yn ol. Eu gwaith nhw ydi goruchwylio'r gwario ar ein trethi, er na fuasech yn tybio hynny wrth edrych ar yr holl rwtsh gwleidyddol yn y taflenni ac ar y cyfryngau! Fe gan nhw ddigon o gyngor gan arbenigwyr ac yn wir ychydig iawn o'r gwario sy'n ddigon dadleuol i'w drafod mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor. Mewn pwyllgorau y gwneir llawer o'r trafod, a phan yn pwyllgora (gydag ambell eithriad efallai) nid yw agwedd meddwl Cyfreithiwr o 'Dori' fawr gwahanol i un Cyfreithiwr'Llafur', medden nhw. Cefndir ac addysg a gwerthoedd cynghorydd sy'n penderfynu beth yw ei flaenoriaethau. Dydi ei blaid ddim mor bwysig â hynny.

Felly mae'n resyn gen i nad oes mwy o Gymry yn fodlon sefyll fel cynghorwyr, neu wneud ychydig i helpu ymgeisydd a fyddai'n gallu atgoffa'r Cyngor o bresenoldeb a dyheadau y miloedd o Gymry Cymraeg neu Gymreig yn Ne Morgannwg. Lleiafrif ydym ni, ond lleiafrif reit fawr, a chenhadaeth go arbennig gennym ni, i geisio ennill cydymdeimlad pobl Caerdydd tuag at 'y pethe'. Rhydd etholiad lleol gyfle euraidd i ni wneud hynny.

Sawl tro, wrth guro drysau, y dof ar draws pobl na wyddant fod posib cael addysg drwy'r Gymraeg i'w plant. Sawl tro caf hyd i newydd ddyfodiaid o Gymry na wyddant ble mae'r Capel Cymraeg agosaf. Sawl tro y caf hyd i hen bobl mewn tlodi, heb wybod y gallant gael gostyngiad yn eu trethi, ag ati. Yr un mor bwysig â chenhadu yw dangos fod Cymry yn barod i wasanaethu a helpu.

Dywedodd Mrs. Julius Hermer wrthyf eleni mai "invasion of privacy"! oedd curo ar ddrysau pobl. Ond doedd dim byd ar daflen y Toriaid yn dweud wrth y methedig sut i gael car i fynd â hwy i bleidleisio! Dim ond wrth guro drws y cewch wybod am anhawsterau pobl. I mi, dyna'r cwbl ydi 'canfasio' mewn etholiad lleol, sef dweud: "Mr. X, ga'i roi'r daflen yma i chi ar ran yr ymgeisydd? Ydych chi'n gwybod ble i bleidleisio? Fyddwch chi'n gallu cyrraedd yno?" (Dim ond un person mewn tri sy'n poeni pleidleisio o gwbl; mae'n eithaf anghyfleus i lawer, chwarae teg. Dywedodd y Prif Swyddog Etholiadau wrthyf eleni y byddai'r canlyniad yn Llandaf yn hollol wahanol petai pawb yn pleidleisio. A bydd ymyrraeth yr SDP yn drysu pob hen deyrngarwch tro nesaf).

Os oes gan rywun sy'n ateb y drws unrhyw ddiddordeb mewn pethau Cymreig, daw ymateb oddi wrthyn nhw. Does dim rhaid i'r canfaswr wthio mwy, dim ond symud ymlaen yn foesgar. Beth yn y byd mawr sydd mor frawychus ynglyn â'r 'canfasio' yma fel bo cynifer o'm cydnabod yn dweud "Alla'i ddim"?.

Mae 8600 o dai ym Mhlasmawr ble'r enillodd Dafydd Huws sedd dros Blaid Cymru. Gellir curo ryw 100 drws, wrth ganfasio'n ysgafn fel hyn mewn noson o rhyw 2 awr.Felly mae angen 80 o bobl am un noson, neu 40 am ddwy noson, ac yn y blaen. Dyna sut yr aeth Dafydd ar y cyngor, dybia i; ymgeisydd a 'delwedd' dda (mae meddyg yn wych!) yn llwyddo i gael criw o bobl i ofyn yn foesgar am bleidlais. A hynny mewn ward lle mae'r bleidlais yn reit glos rhwng Llafur a Thori. Ac wrth gwrs, amgylchiadau ffafriol yn San Steffan.

Ydi e'n ormod i ofyn i rywun sy'n cefnogi Plaid Cymru ac sy'n gallu cerdded a siarad â phobl, i roi ryw bedair noson yn y pythefnos cyn etholiad, i guro drysau?Rwyn siwr fod 20 o bobl felly ym Mhlasmawr, ac mewn unrhyw ward yn y Ddinas a'r Fro. Dyma fi'n gofyn i chi nawr yn barod am yr etholiad nesaf ta beth!

Gwen Jos.

# COED Y GOF

Cynhaliwyd ail-gyfarfod Cymdeithas Rhieni Pentrebane. Esboniwyd y drefn ynglŷn â chludiant a ddangosodd faint llafur y darpar-brifathro, Mr. Tom Evans, ac a oedd wrth fodd pob rhiant ond un.

Cafwyd anerchiad ar y drafodaeth, a fu yn y Pwyllgor, am enw'r ysgol. Mae Pentrebane yn tarddu o'r enw 'Cefn-tre-Paine'. Teulu Normanaidd o'r enw Fitz-Paine a roddodd ei enw i blasdy 'Tre-Paine', ac enwyd yr ardal ar ôl y plasdy. Mae'r ffurf Pentre Paine yn mynd nôl bedair canrif ac felly wedi ennill rhywfaint o ddilysrwydd i'r ffurf lygredig - cymh. Nant bradach (Llanbradach) a Llwyn Trithyd (Llantrithyd). Ar ôl ystyried 'Pentrebaen' fel enw i'r ysgol newydd penderfynwyd bod gormod o debygrwydd i'r ysgol Pentrebane Saesneg, sy'n dal i fodoli drws nesaf, ac ar ôl ystyried hen enwau yn gysylltiedig â'r ardal y dewis yw ' COED Y GOF'. Felly yr enw llawn fydd Ysgol Coed y Gof, Pentrebaen, os derbynnir yr awgrym gan y Pwyllgor Addysg.

Bu trafodaeth hir ar bwnc ffurfwisg yr ysgol ac aeth i bleidlais lle caed deuparth o'r rhieni dros ffurfwisg a thraean yn erbyn.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas Rhieni ar Orffennaf 20fed yn yr ysgol newydd ac erbyn hynny mae gobaith y bydd y staff newydd wedi eu penodi.

Dim ond un nodyn o dristwch a drawyd sef bod pum plentyn o ardal Llandaf wedi'u gwrthod rhag mynediad i Ysgol Coed y Gof ac yn cael eu danfon i Ysgol y Parade. Fe basiwyd yn unfrydol y byddai'r holl rieni yn cefnogi rhieni'r pump hyn, sydd i gyd yn byw yn nalgylch naturiol yr ysgol, yn eu brwydr yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod. Y cam nesaf yw apelio at Ysgrifennydd Cymru.

# DAU BENTYMOR - CLWB CYMRIC

Yr oeddwn i wedi bwriadu rhoi taw ar y busnes peldroed yma dros fisoedd yr haf ond penderfynu cario'mlaen a wneuthum gan fod'na ychydig o bethau pellach i'w cofnodi ynglŷn â'r tymor a aeth heibio, ac hefyd materion fydd yn effeithio ar weithrediadau'r tymor sydd i ddod.

Yn gyntaf daeth i law, trwy dudalennau'r 'Echo', y gynghrair am y flwyddyn ac fe sylwch fod Clwb Cymric yn y chweched safle (nid yn y pedwerydd safle fel y soniais y mis diwethaf).

CYNGHRAIR CAERDYDD A'R CYLCH

ADRAN 2

| | CH | E | CYF. | C | O.B. | Y.E. | P |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhymni | 26 | 23 | 1 | 2 | 140 | 32 | 47 |
| Cyn ddisgyblion Ysgol Rhymni | 26 | 17 | 3 | 6 | 88 | 54 | 37 |
| St. Patricks | 26 | 19 | 3 | 4 | 68 | 51 | 33* |
| Tongwynlais | 26 | 12 | 8 | 6 | 75 | 53 | 32 |
| Bridgend Street | 26 | 12 | 8 | 6 | 80 | 65 | 32 |
| CLWB CYMRIC | 26 | 11 | 10 | 5 | 55 | 45 | 32 |
| Toriaid Rhymni | 26 | 10 | 4 | 12 | 70 | 66 | 24 |
| Sevenoaks | 26 | 9 | 5 | 12 | 67 | 78 | 23 |
| Cyn-ddisgyblion Ysgol Fitzalan | 26 | 7 | 7 | 12 | 60 | 69 | 21 |
| St. Albans | 26 | 7 | 6 | 13 | 49 | 76 | 20 |
| Wiggins Teape | 26 | 4 | 6 | 16 | 44 | 87 | 14 |
| Splott Albion | 26 | 8 | 4 | 14 | 40 | 79 | 12** |
| Grange Albion | 26 | 4 | 3 | 19 | 49 | 112 | 11 |
| Canton United | 26 | 3 | 4 | 19 | 47 | 85 | 10 |

* Cosb: : Colli 8 pwynt a 13 gôl
** Cosb : Colli 8 pwynt a 6 gôl

Dyna felly olwg ar y tymor a aeth heibio yn ei gyfanrwydd a chwedaf y cytunwch â mi pan ddywedaf ein bod wedi rhoi cyfrif eithaf teilwng ohonom ein hunain.

Yr ail beth i'w gofnodi yw hanes y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn wythnos-olaf-ond-un mis Mai i ethol swyddogion a thrafod materion yn ymwneud â dyfodol y clwb. Cafwyd cyfarfod bywiog a diddorol yng Nghanolfan yr Urdd, y gweithrediadau yng ngofal y Cadeirydd, Rhys Fôn Ifans. Rhoddwyd amlinelliad o'r tymor ar y maes chwarae gan gynrychiolwyr y ddau dîm, ac yna cafwyd adroddiadau gan yr ysgrifennydd a'r trysorydd ar safle gyfansoddiadol ac ariannol y Clwb. Fel pob Clwb peldroed mawr y dyddiau yma, mae arian yn fwgan yn naturiol, a gwnaed apêl daer gan y trysorydd am gynlluniau i godi arian fuasai'n ein galluogi i ymgiprys yn y farchnad chwaraewyr ddechrau'r tymor nesaf. Mae cynlluniau ar y gweill i drefnu raffl fawr, a gobeithir dechrau'r ymgyrch godi arian gyda barbiciw yn un o aceri dibendraw gardd Wyn a Sian yng Nghae'r Wenallt, Rhiwbeina ar y 10fed o Orffennaf. Prif nod y cyfarfod oedd ethol swyddogion am y tymor 1981-82, a dyma'r rhestr a ddewiswyd:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd ac Ysgrifennydd yr Ail Dîm | Rhys Fôn Ifans |
| Ysgrifennydd y Tîm Cyntaf | Eynon Williams |
| Trysorydd | Peredur(Pwt) Ifans |
| Trefnydd Adloniant | Rheon Tomos |
| Capten y Tîm Cyntaf | Rhodri Gwynn Jones |
| Is-gapten | Dewi Huws |
| Capten yr Ail Dîm | Gwyn(bach) Williams |
| Is-gapten | Alwyn(Bags) Gruffydd |

Penderfynwyd hefyd ethol Gareth Huws a Cen Williams fel cynrychiolwyr y Clwb yng Nghynhadledd Flynyddol yr Henoed ym Mhorthcawl.

Un peth arall i'w nodi yw'r newid arfaethedig yn amseru a lleoliad yr ymarfer y tymor nesaf - y tebyg yw mai ar nos Fawrth yn Ysgol Uwchradd Radur y cynhelir yr ymarfer o hyn ymlaen; bydd cadarnhad o hyn cyn dechrau'r tymor; bydd croeso i unrhyw un ymuno a ni bryd hynny i gadw'n heini neu i chwarae peldroed. Hwyl a mwynhewch eich gwyliau haf.

Rhodri Gwyn Jones.

# C.C.C.C.

O'r diwedd mae gyda fi amser i sgrifennu adroddiad i'r Dinesydd am Gymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd (C.C.C.C.). Pam nawr? Oherwydd fod 'y tymor' o nosweithiau gwerin a dawnsiau wedi dod i ben. Fe gaewyd y tymor gyda dwy noson arbennig - ac roedden nhw'n arbennig ymhob ystyr. Y digwyddiad cyntaf oedd cyngerdd yng Ngwesty'r Central gydag artistiaid tra enwog - Hywel Gwynfryn, Ray Gravell, Geraint Dafis, Mynediad am Ddim a'r Tebot Piws ac ar ddiwedd y noson roedd hiraeth mawr ar bawb a Lleucu Llwyd wedi'i hatgyfodi. Roedd llawer tipyn yn dlotach hefyd ar ôl mynd i'w pocedi i brynu cartŵnau Cen Williams. Rhaid i mi fan hyn, ar ran y Gymdeithas, ddiolch yn fawr iawn i'r holl artistiaid ac i Cen - am iddynt i gyd roi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim a thrwy hynny helpu coffrau C.C.C.C. yn ddirfawr. Diolch hefyd i Emyr Wyn a lafuriodd yn galed drwy'r flwyddyn yn cysylltu ag artistiaid.

Y digwyddiad arall a gaeodd y tymor oedd dawns gyda Geraint Jarman yn y Clwb Trydan ac, unwaith eto, daeth cannoedd i fwynhau. Yn wir dyma oedd y patrwm drwy'r flwyddyn - cannoedd o bobl yn dod i fwynhau eu hunain, mewn awyrgylch Gymraeg, a chydag artistiaid gorau Cymru - i'r rhai ohonoch sydd ddim yn gwybod daeth Dafydd Iwan, Tecwyn Ifan, Meic Stevens, Heather Jones, Ar Log, Cilmeri, Hwntws a Chromlech i'n diddanu yn y Great Western a daeth Bando i'r Clwb Trydan. Gallwn gyfrif bob noson yn llwyddiant.

Datblygodd C.C.C.C. yn enfawr o ran aelodaeth hefyd. O 50 aelod fis Mai diwethaf tyfodd nes bod 600 o aelodau gan y Gymdeithas nawr a 130 o'r rheini'n aelodau sylfaenol sy'n talu £100 i ymaelodi. Clwb inni ein hunain yw'r nod ac mae adeilad mewn golwg; rydyn ni'n cael trafodaethau ar hyd o bryd ond yn barod rydyn ni wedi derbyn caniatad cynllunio am yr amlinelliad o gynllun sydd gennym. OND mae eisiau mwy o arian, wrth gwrs; os ydych chi eisiau ymuno â'r Gymdeithas (£1) neu ddod yn aelod sylfaenol ysgrifennwch at Nic ap Glyn, 135 Keppoch St., Plasnewydd ac fe welwn ni chi y flwyddyn nesa!

Hywel Merfyn.

# Y GOLOFN GAIN gan ARFON

Ystrydeb, mae'n debyg, yw dweud mai tasg anodd dros ben yw cyfieithu barddoniaeth. Beth bynnag am hynny aeth Raymond Edwards i'r afael â cherdd 'The Secret Springs' gan Michael Roberts (1902-48), bardd a beirniad Saesneg go bwysig yn ei gyfnod, a rhoi inni'r fersiwn gabol hon yn Gymraeg. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yng Nghalendr Cymraeg Banc y Midland ym 1979, calendr y bu ei ferch Siân yn ei olygu, a chefais gennad ganddo i'w chodi i'r Dinesydd.

Y FFYNHONNAU CÊL

Ble mae'r ffynhonnau cêl, a ble
Mae tarddell gudd llawenydd chwim?
O ble y mae'r chwerthin, fel y ffrwd, yn
syrthio? O ble
Y dagrau, yr heulwen chwâl-mewn-enfys, sydd
uwchben?.....

Rhywle goruwch creigrosyn, uwchlaw'r cen,
Hyd yn oed gefn haf neu gefn gaeaf, daw
Y pylor-eira, cymar cyfnewidiol
Cyfnewidiol, digyfnewid fôr .........

Rhywle, goruwch yr iâ, mae storm ddi-dyst
Yn torri yn y gwyll ar gopa'r grib
A'r gwyn, chwyrnellog afalans
Yn toddi i'r storm, y nos, yr eira gyr;

A heulwen, a'r tywyllwch, a disgyrchiant,
Dyma'r cyfan: dyma'r ffynhonnau cudd, y symledd,
A thywyllwch yw
Hanfod y goleuni, a thywyllwch, a'r holl leoedd
unig.

(cyf. Raymond Edwards)

Bûm yn edrych yn ddiweddar ar yr Adran Farddoniaeth yng Nghyfansoddiadau Llenyddol Eisteddfod yr Urdd, ac roedd yn dda iawn gennyf weld yno ddau enw o Gaerdydd. Daeth Eirlys Michael, sy'n ddisgybl yn Ysgol Melin Gruffydd yn drydedd yn y dosbarth dan wyth oed, a daeth Catrin Haf Williams o Ysgol Llanhari (a'r Crwys bid siwr!) yn drydedd yng Nghystadleuaeth y Gadair ac yn gyntaf ar y soned. Llongyfarchion brwd i'r ddwy, ac i'n llenorion rhyddiaith ifanc hefyd.

CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Fel rhan o'r dathliadau degfed penblwydd M.Y.M. cafwyd Bore Agored yn y Cylch Meithrin ar ddydd Mawrth y 9fed o Fehefin. Hefyd, bu'r Cylch yn cerdded yn yr orymdaith fawr drwy ganol Caerdydd ar ddechrau'r Wyl Feithrin. Mae 14 yn mynychu'r Cylch ar hyn o bryd ac mae'r Cylch Mam a'i Phlentyn yn llewyrchus iawn, felly mae dyfodol sicr i'r Cylch Meithrin.

# GŴYL TRELAI

GORFFENNAF 11 - 18

Dydd Sul, Gorffennaf 12, 8.00 p.m. CYMANFA GANU yn Eglwys yr Atgyfodiad, Grand Avenue, gyda Chôr Cantorion Creigiau.
Cyflwynydd: Euryn Ogwen Williams

Dydd Gwener, Gorffennaf 17, 7.30 p.m.
Canolfan Hamdden Trelai
Cyngerdd: Cerddorfa Ysgolion Sir De Morgannwg
Côr Recorder Ysgolion Caerdydd
Côr Ysgol Glan Ely
Cyfarwyddwr: Helena Braithwaite

Gorffennaf 17 - 19, Gŵyl Flodau - Eglwys Timothy Sant, Trelai

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 18, 12 o'r gloch :
Gorymdaith Carnifal
1 p.m. - 6 p.m., Grand Avenue
Gŵyl o gerdd, dawns a chân, yn cynnwys ymhlith llawer arall:
Theatr Bypedau Masquerade
Côr Cerdd Dant Llanhari
Clychau'r Côr Del Canto
Cold Steel
Dawnswyr Ekomé
Corau, bandiau, dawnsfeydd.

7 p.m. : Cyngerdd Roc

Arddangosfeydd o gelf a chrefft

Gŵyl yn yr awyr-agored

Rhaglenni swyddogol yn cynnwys holl fanylion yr Ŵyl, pris 10c (trwy'r post 21½c) ar gael o Swyddfa'r Ŵyl, North Ely Community Hall, Pethybridge Road, Trelai, Caerdydd.

D E W C H   Y N   L L U ! !

**CYMDEITHAS CYMRY ARIANIVIN**

ODDIAR DOCYN RAFFL A WERTHWYD GAN SHAN EMIVIN !


PLAS TAN Y BWLCH

Cadernid Gwynedd

**MEDI 4-6, 1981**

Cwrs ar gyfnod 'geni' Gwynedd-yr oes euraidd, rhwng ymadawiad y Rhufeiniaid a dyfodiad y Saeson.

PLAS TAN Y BWLCH
MAENTWROG
BLAENAU FFESTINIOG
GWYNEDD
LL41 3YU
Tel: Maentwrog 324/334

PARC CENEDLAETHOL ERYRI

SEFYDLU CYLCH MEITHRIN CYMRAEG RADUR/PENTREPOETH :

Yn y saithdegau cynnar yr oedd nifer o Gymry bach Radur yn mynychu cylchoedd meithrin Cymraeg yn yr ardaloedd cyfagos ac erbyn 1974 yr oedd teimlad yn y pentref y dylid ystyried agor un lleol.

I drafod y posibilrwydd hwn cyfarfu Mrs. Bethan Roberts, Dr. Meurig Davies, Mr. Don Richards a Mrs. Veronica Williams yn 2 Ael y Bryn, Trem y Castell, Radur (cartref Mrs. Bethan Roberts) ar y 7fed o Dachwedd, 1974. Yn y cyfarfod hwnnw penodwyd pwyllgor llywio (Mrs. Mary Davies (gwraig Meurig) yn gadeirydd, Mrs. Veronica Williams yn ysgrifennydd a Mr. Don Richards yn swyddog cysylltiadau cyhoeddus,i geisio sefydlu cylch meithrin Cymraeg ar gyfer Radur a Phentrepoeth. Hefyd y noson honno cysylltwyd â Mrs. Christine Livsey a chytunodd hithau i fod yn athrawes y grwp. Yna cysylltwyd â Mrs. a Mrs. T. Watkins, Gelynis Tce., Pentrepoeth gyda'r gobaith o gael defnyddio festri capel Bethel, Pentrepoeth. Ar y 13eg Tachwedd atebodd Mr. Watkins yn cynnig defnydd o'r adeilad am bris rhesymol iawn.

Sylweddolwyd fod angen addasu tipyn ar y lle i foddhau y Swyddog Tân ac i wneud yr ystafell yn glyd, ac aethpwyd ati yn syth i ddechrau codi arian.

Cynigiodd Mrs. Bethan Roberts y byddai'n briodol i gynnal Noson i'r Santes Ddwynwen ar nos Sadwrn, 25ain Ionawr 1975 er mwyn chwyddo'r gronfa (ac ers hynny y mae'r cylch wedi dathlu'r ŵyl hon yn flynyddol mewn dull cyffelyb).

Prynwyd defnyddiau angenrheidiol; cafwyd llafur rhai o'r rhieni a chyfeillion ac yna derbyniwyd sêl a bendith yr awdurdodau i agor am y tro cyntaf ar 14eg Ionawr, 1975. Penderfynwyd agor am 2 awr y bore, dair gwaith yr wythnos i ddechrau gyda Mrs. Eluned Huws yn cynorthwyo Mrs. Livsey.

4 plentyn oedd yn bresennol y bore cyntaf ond erbyn yr haf yr oedd yno 10 ar aml i fore.

Ar y 3ydd Mehefin, 1975, agorwyd y cylch yn swyddogol gan ei Anrhydedd y Barnwr Dewi Watkin Powell. Erbyn tymor yr Hydref 1977 penderfynwyd symud i adeilad y Clwb Tenis yn Heol Isaf, Radur a dwy flynedd yn ddiweddarach i Ysgoldy'r Eglwys yn Park Rd., Radur.

YSGOL FEITHRIN LLYSFAEN

Saith mlynedd yn ôl yn union i'r Pasg yma sefydlwyd chweched Ysgol Feithrin Gymraeg Dinas Caerdydd. O edrych ar fap o'r ddinas roedd bwlch amlwg yn y Gogledd-ddwyrain, yn lleoliad yr Ysgolion Meithrin. Buwyd yn chwilio am bron i ddwy flynedd yn yr ardal am ystafell addas i sefydlu ysgol. Dros baned o goffi mewn Noson a drefnwyd gan yr Ysgolion Meithrin yn Rover Way, cawsom gynnig cartre dros-dro mewn ystafell a oedd yn y broses o gael ei dyrchafu o fod yn garej i ystafell fyw. Roedd Ysgol Feithrin Llysfaen wedi cael lloches o'r diwedd ym Mhenrallt, cartre Bethan a Kynric Lewis yn Llysfaen. Ac rwyn siwr na chafodd yr un cylch meithrin y fath 'iard chwarae' gyda physgod aur, ci a chrwban yn gwmni!

Ar Ebrill 29ain, 1974 daeth 7 o blant bach 3 oed at ei gilydd i sefydlu cylch meithrin newydd sbon gyda 2 athrawes, Mair Stephens a Tegwen Evans yn rhannu'r dysgu. Bu'r ystafell hon yn fan cyfarfod am chwe wythnos nes i ni gael ystafell yn Hen Ysgol Gynradd y Pentre yn Llysfaen; ac yno mae'r cylch yn cyfarfod o hyd ar bedwar bore'r wythnos. Ond mae'r trip ysgol blynyddol yn dal i bererindota i Benrallt "i weld y crwban".

Daeth y ffaith fod angen llifeiriant parhaol o arian i gynnal yr achos yn realiti byw iawn o'r dechre. Roedd y plant yn dod o ardal weddol eang ac roedd yn rhaid trefnu bws i'w cludo yno. Bu cost y bws yn faen am ein gyddfau ar hyd y blynyddoedd ac eleni, penderfynwyd dileu £1,000 o'r costau hyn trwy docio'r bws. Mae'r mamau yn cludo mewn ceir ar drefniant rota a does dim argoel fod nifer y plant yn lleihau. Ond fe ddisgwylir cyfyngu ar ein 'dalgylch' pan fydd y Cylch Mam a'i Phlentyn newydd ym Mhenylan yn datblygu'n gylch meithrin yn y ddwy flynedd nesa. Gwych o beth fod rhagor o gylchoedd yn agor ym mhob ardal i leihau strach y cludo.

Wynebwyd y busnes codi arian mewn gwahanol ffyrdd diddorol. Cafwyd nosweithiau gwin a chaws, dawnsfeydd a boreau coffi diri, ffair ha, clwb 50, ac roeddem yn falch iawn i drefnu noson gyda Dafydd Iwan pan lanwyd Theatr y Reardon Smith i'r ymylon, ac mae'r noson o Gerddoriaeth Nadolig wedi ennill ei phlwy yng nghalendr y flwyddyn Gymraeg yn y ddinas. Lansiwyd cynllun '£20 y pen' oedd yn gofyn i bob man drefnu rhyw weithgaredd i godi lleiafswm o £20 y flwyddyn. Daeth hwn â diddordeb pob rhiant i'r amlwg a sicrhawyd cynhaliaeth gref i'r gronfa. Trefnwyd Sioe Ffasiwn lewyrchus y llynedd gan bedair o'r mamau ar y cyd, cafwyd barbyciw, a phob amrywiaeth bosib o weithgaredd.

Erbyn hyn mae bron i 100 o blant wedi mynd drwy'r ysgol dan law chwech o athrawon. Gadawodd y ddwy athrawes wreiddiol yn y flwyddyn gyntaf i ofalu am ddyfodol yr ysgol ar eu haelwydydd eu hunain. Mae dyled yr ysgol yn drwm hefyd i Eleri Betts, Avril Jones, Megan Evans a Non Owen yr athrawes bresennol.

Fis Medi eleni bydd y rhan fwyaf o blant yr ysgol yn mynd i Gefn-Onn a bydd y criw bach gwreiddiol ar eu blwyddyn olaf yn yr Ysgol Gynradd cyn mynd ymlaen i Lantaf. Bu cryn newid ar fyd yn addysg Gymraeg y ddinas yn y saith mlynedd hon. Gobeithio y bydd llewyrch ar y twf yn y saith mlynedd nesaf hefyd.

---


AR WERTH

Marina 1.3 de luxe 1977 R.
Teiars newydd, M.O.T. Bar tynnu; £1,200
Ymholiadau i Eirwen Price, 106 Heol Claude, Y Rhath.


---

CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD

Wedi egwyl dros yr haf (?!) bydd aelodau'r Cylch Cinio yn ail-ymgynnull ar nos Iau, Medi 10fed.

Ein gwestai y tro hwn fydd Dr. Jane Jones, Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd. Mae hi'n Gymrawd o'r Coleg Gynaecolegol, a hi sydd yng ngofal y cynllun pwysig sydd ar droed i ddarparu uned laser at wasanaeth iechyd gwragedd yn Ne Morgannwg.

Am dipyn o sylwedd, felly - a smaldod - dewch yn dyrfa i dŷ bwyta THATCHERS, Llanishen erbyn 8.00 p.m. o'r gloch. Cofiwch gysylltu â'r ysgrifenyddesau, naill ai Mair Gerallt Evans (ffôn: Caerdydd 561776) neu Vera Davies (ffôn: 561553) o leiaf dridiau ymlaen llaw.

Ar ôl Medi 10fed, bydd y Cylch Cinio yn cwrdd ar yr ail nos Fawrth o Dachwedd, Ionawr, Mawrth a Mai. Mae croeso i unrhyw Gymraes yn y ddinas i ymuno â ni.

# LLAWENYDD A LLWYDDIANT O'R STEDDFOD (CANLYNIADAU GLANTÂF)

GWAITH YSGRIFENEDIG

1. GARETH WHELAN - Cyntaf am Ddrama (Cyfansoddi) Blwyddyn 3
2. MARC EDWARDS - Cyntaf am Ryddiaith, Blwyddyn 2 a 3
3. Y TWPSOD - Cyntaf am Gywaith Blwyddyn 2 a 3
4. TRWYNOG - Cyntaf am Gywaith Blwyddyn 1
5. FFION JENKINS - yn Gydradd Drydydd am Farddoniaeth Blwyddyn 2 a 3
6. CONCR MONCO - yn Drydydd am Gywaith Blwyddyn 1
7. DWRGI - yn Gydradd Drydydd am Wyddoniaeth Cywaith Blwyddyn 1,2 a 3

GWOBRAU LLWYFAN

1. CANU'R PIANO DAN 15 - ELENID OWEN yn Ail
2. DAWNS UNIGOL - GETHIN REES yn Drydydd
3. PARTI DAWNSIO GWERIN - yn Drydydd

Yn ychwanegol at y rhai a enillodd wobrau swyddogol cafodd y canlynol eu henwi gan y beirniaid:

Gwaith Unigol (Traethawd) - Dosbarth 2 a 3 GETHIN REES a FFION JENKINS yn ddau o'r deg gorau allan o 129 ymgais.
Gwaith Dosbarth 1. Enwyd 7 cywaith allan o 27. Cyweithiau Glantaf oedd pedwar ohonynt.

CELF A CHREFFT

1. STEFFAN WILLIAMS - Cyntaf am Waith Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4
2. SIMON THOMAS - Cyntaf am Waith Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2
3. DEBBIE ROBERTS - Cyntaf am Grochenwaith a Serameg Blwyddyn 3 a 4
4. LINDSAY THORNHILL - Cyntaf am Grochenwaith a Serameg Blwyddyn 1 a 2
5. GWILYM BOORE - Cyntaf am 'Collage' Blwyddyn 3 a 4
6. FRANCES TUCKER - Cyntaf am Argraffu Lino, Sgrin Sidan, Blwyddyn 3 a 4
7. NIA HARRI - Cyntaf am Argraffu Lino, Sgrin Sidan, Blwyddyn 1 a 2
8. JOANNA GOLLEY - Cyntaf am Wau Tapestri 10-12 oed
9. JAYNE PALFREY - Cyntaf am Wau Tapestri Blwyddyn 3 a 4
10. JAYNE PALFREY - Cyntaf am Waith Tri Dimensiwn Blwyddyn 3 a 4
11. SIAN JONES - Cydradd Cyntaf am Waith Tri Dimensiwn Blwyddyn 1 a 2
12. ALYSON EVANS - Cyntaf am Nyddu Blwyddyn 5 a 6
13. FFION JENKINS - Cydradd Cyntaf am Frodwaith Blwyddyn 1 a 2
14. SIWAN JOBBINS - Cyntaf am 'Collage' Blwyddyn 1 a 2
15. DEBBIE FORD - Cyntaf am Waith Tegan Meddal, Blwyddyn 3 a 4
16. FFION WILLIAMS - Cydradd Cyntaf am Wau a Chrosio Blwyddyn 3 a 4
17. ANNA GRAVELLE - Cyntaf am Argraffu ar Ddefnydd Blwyddyn 3 a 4
18. HELEDD STEPHENS - Cyntaf am Waith Gwau ar Wydd Blwyddyn 1 a 2
19. THERESA SWEETLAND - Cyntaf am Waith Gwau ar Wydd Blwyddyn 5 a 6
20. JULIE MITCHELL - Cyntaf am Waith Tegan Meddal Blwyddyn 5 a 6
21. TRACEY MATHEWS - Ail am Waith Gwreiddiol Agored Blwyddyn 5 a 6
22. SIAN JONES - Ail am Arlunio Blwyddyn 1 a 2
23. EMMA BRITTON - Trydydd am 'Collage' Blwyddyn 1 a 2
24. BRENGAIN STEPHENS - Ail am Nyddu Blwyddyn 1 a 2
25. ELAINE MORSE - Ail am Nyddu Blwyddyn 3 a 4
26. CATHRYN EDWARDS - Trydydd am Wnio Blwyddyn 1 a 2
27. TINA SALTER - Trydydd am Frodwaith Blwyddyn 3 a 4
28. PHILIP WILLIAMS - Ail am 'Collage' Blwyddyn 3 a 4
29. HELEN THOMAS - Ail am Wau a Chrosio Blwyddyn 1 a 2
30. SALLY ARNOLD - Ail am Argraffu ar Ddefnydd Blwyddyn 1 a 2
31. ELAINE MORSE - Ail am Glytwaith Blwyddyn 3 a 4
32. LOWRI STEPHENS - Ail am Waith Gwau ar Wydd Blwyddyn 3 a 4
33. ELAINE MORSE - Ail am Waith Coed, Blwyddyn 3
34. IAN MORRISON - Ail am Waith Metel Blwyddyn 3

ADRAN BENTRE'R URDD RHIWBEINA

Mae'r Adran yma yn dal i fynd o nerth i nerth. Penderfynwyd cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn y gystadleuaeth i Gorau Adrannau Pentre. Hyfforddwyd y Cor gan Huw Davies, disgybl y bedwaredd flwyddyn yn Ysgol Gyfun Llanhari a chyn aelod o'r Adran. Cyfeilydd y Cor oedd Helen Davies, hithau hefyd yn ddisgybl yn Llanhari ac wedi bod yn aelod o'r Adran. Roedd 30 o blant yn y Cor.

Cynhaliwyd Noson Gaws a Gwin lwyddiannus iawn ychydig cyn y Sulgwyn gan y rhieni a chyfeillion yr Adran i godi arian i dalu am y bws i'w cludo i Gastell Newydd Emlyn. Arhosodd y Cor dros nos yn Nhrefach Felindre a chael croeso cynnes iawn. Er na chafodd y Cor lwyfan canon nhw'n ardderchog ac fe ddaethon nhw'n chweched allan o bymtheg Cor. Gwell lwc y flwyddyn nesa! Diolch i Huw a Helen am eu gwaith. Cyrhaeddodd aelod arall o'r Adran yr Eisteddfod Genedlaethol yn y gystadleuaeth canu piano sef Donna Ford.

CANOLFAN YR URDD

CAERDYDD

SWYDDI RHAN-AMSER

YSGRIFENYDDES (Oriau i'w trafod)

PERSON I WEITHIO YN Y BAR COFFI

| | |
|---|---|
| Nos Lun | 6.30 - 8.30 |
| Nos Fercher | 6.45 - 8.45 |
| Nos Iau | 6.45 - 8.45 |
| Nos Wener | 7.30 - 9.30 |

Manylion pellach oddi wrth Y Pennaeth, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd. Ffôn: 36201.

ALAN GWYNANT

# OND PRYDER AM GYSTADLEUWYR Y DYFODOL

## CANOLFAN YR URDD CAERDYDD

Y GYMRAEG YN YSGOLION DE MORGANNWG.

Yn rhifyn Mehefin o'r Dinesydd gwelwyd cyfweliad â'r Parch Bob Morgan, Arweinydd y Blaid Lafur ar Gyngor De Morgannwg. Yn ei ateb ynglŷn ag addysg Gymraeg a'r Unedau dwyieithog fel y prif obaith i ddysgu'r iaith yn effeithiol. Mae'n amau gwerth dysgu'r Gymraeg yn ysgolion Saesneg y Sir ac yn awgrymu ein bod ni'n canolbwyntio ein hadnoddau mewn addysg Gymraeg.

Tueddaf i anghytuno â'r syniad o ganolbwyntio ein hadnoddau ar addysg Gymraeg yn unig. Credaf fod cyflwyno'r iaith yn yr ysgolion Saesneg eu cyfrwng yn holl bwysig i fagu ymwybyddiaeth Cymraeg a Chymreig ymhlith holl blant y Sir. Mae mwyafrif y rhieni sy'n anfon eu plant i Ysgolion Cymraeg yr ardaloedd hyn yn ddi-Gymraeg - cynnyrch yr Ysgolion Saesneg - ond oherwydd eu cysylltiad - brau o bosibl - â'r Gymraeg yn ystod eu plentyndod, mae hyn wedi plannu awydd ynddyn nhw i roi cyfle gwell i'w plant. Rhaid ymladd brwydr yr iaith ar bob ffrynt ac mae cyfraniad athrawon ail iaith dros y cenedlaethau yn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Sir De Morgannwg yr un mor bwysig â chyfraniad athrawon yr Ysgolion Cymraeg. Mae'r cwbl yn creu ymwybyddiaeth o Gymreictod boed ar lefel elfennol neu ar lefel uwch.

Edrychwch ar Sir Gwent i weld effaith peidio cyflwyno'r iaith yn y rhan fwyaf o ysgolion y Sir a meddyliwch am eu colled a'u cyfle i uniaethu eu hunain â gweddill y wlad. Mae hi'n sefyllfa drist.

Gobeithio na welir glasdwreiddio ymhellach ar bolisi iaith Sir De Morgannwg yn Ysgolion Saesneg y Sir. Rhaid gwneud y Gymraeg yn rhan o fywyd a chefndir pob plentyn o fewn y Sir. Agorer mwy o Ysgolion Cymraeg, agorer mwy o unedau dwyieithog ond gofalu'r un pryd bod gweddill y boblogaeth ysgol yn cadw cysylltiad er mwyn undod y genedl.

Gwilym E.Roberts,
Rhiwbeina.

CYFARFOD BLYNYDDOL 1981

Memorandwm gan Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli at holl ddefnyddwyr a chefnogwyr y Ganolfan.

Gwahoddir chi i gyfarfod pwysig yn y Ganolfan am 7.30 p.m. ar y 15fed o fis Gorffennaf i ystyried materion sy'n peri gofid parthed agweddau ar waith yr Urdd yn y Ganolfan. Mae nifer o bwyntiau yr hoffem eu trafod yn y cyfarfod hwn:

1. A yw gweithgareddau y Ganolfan yn apelio at ieuenctid yn eu harddegau?

2. Cysylltiadau y Côr, Cwmni Dawns, Cwmni Drama, a'r defnyddwyr eraill - a'r posibilrwydd o ehangu eu gweithgareddau a chynnwys hyfforddiant i rai iau fel rhan o weithgaredd yr Aelwyd.

3. Oblygiadau URDD 2000 i Ganolfan Caerdydd.

4. Dyfodol yr Aelwyd.

5. Cefnogaeth ymarferol gan y defnyddwyr, eu rhieni lle bo'n addas a chyfeillion yr Urdd i'r Ganolfan a'r gweithgareddau.

6. Costau cynnal y Ganolfan - yng ngwyneb chwyddiant cynyddol. Dengys y ffigyrau canlynol yn fras y sefyllfa fel ag y mae:

| | |
|---|---|
| Trethi | £620 |
| Gwres | £1,200 |
| Golau | £440 |
| Ffon | £543 |
| Yswiriant | £587 |
| Glanau | £1,200 |
| Atgyweirio | £2,000 |
| Cyfanswm | £6,590 |

Gobeithiwn weld cynrychiolaeth deilwng yn y cyfarfod hwn. Mae parhad y Ganolfan yn dibynu ar eich presenoldeb ar y 15fed o Orffennaf.

Diolch am eich cefnogaeth.

J.A. EVANS, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli.



Canolfan yr Urdd fel y mae heddiw gyda'r drws yn dal ar agor.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# COLOFN SHÂN

Am unwaith tydwi ddim am sôn yn atgofus hiraethus am ddyddiau a fu na chwaith am fynd â chi i wlad bell! Sôn'wnâi am achlysur cymdeithasol hapus iawn a gynhaliwyd yn ddiweddar, a hynny er budd coffrau llwm y Dinesydd.

Cynhaliwyd Barbeciw'r mis dwytha yn Nhrewallter Fawr, cartref Non a John Hefin. Yn gynta hoffwn ddiolch iddynt am eu parodrwydd a'u lletygarwch yn caniatáu inni gynnal y Barbeciw ar eu tir. Yn bennaf oll, carwn ar ran y Dinesydd ddiolch i Non a dreuliodd oriau yn paratoi'r bwyd ar ein cyfer.

Buom yn hynod ffodus i gael gyda'r nos tyner a braf ac roedd Bro Morgannwg ar 'i gorau a'r awel yn fwyn. Fel y meiniodd yr awel, roedd gwres i'w gael o'r goelcerth fawr ar fuarth Trewallter. Daeth criw teilwng ynghŷd a braf am unwaith yw gallu cofnodi i achlysur codi arian fod hefyd yn achlysur cymdeithasol hapus. Dyna bennaf nod y pwyllgor, bod pawb yn mwynhau'i hun, yn ogystal â chwyddo coffrau'r Dinesydd.

Diolch i'r barmyn (lluosog barman?) fu'n tywallt yn ddyfal drwy'r gyda'r nos ac i Garwyn Davies am alw'r dawnsio. Faswn i ddim yn deud bod y dawnswyr yn brofiadol nac yn osgeiddig! O gofio bod pawb wedi bwyta'n helaeth, rhaid canmol dewrder y rhai a fentrodd i ddawnsio a'u llongyfarch ar eu sioncrwydd. Bodlonodd y mwyafrif ar eistedd a sgwrsio o gwmpas y goelcerth a chredaf i bawb fynd adre'n fodlon 'i fyd.

Mae'n debyg mai'r dyn hapusa y noson honno oedd ein trysorydd Emrys Jarman - un o weithwyr tawel, cyson y Dinesydd. Mae mawr angen elw'r noson i wynebu costau cynyddol dod â'r Dinesydd allan a'i ddosbarthu'n rhad ac am ddim.

Wrth gloi gai apelio atoch i barhau i gefnogi papur bro cynta Cymru - yn ariannol a thrwy gyfrannu i'w golofnau. Criw bach sy'n rhygnu mlaen o fis i fis a byddai croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni. Er 'i fod o'n waith caled gallaf eich sicrhau bod 'na hwyl garw i'w gael hefyd, wrth inni stryffaglo 'mlaen. Mae'r gwaith yn galed ond y gwmniaeth yn ddifyr.

CANTORION CREIGIAU

Yn ystod y tymor diwethaf, rhoddodd y côr gyngherddau lawer, o dan arweiniad Mair Tudno Jones (y gantores enwog Mair Roberts), a'r cyfeilydd poblogaidd Jane Gordon, - trist ei bod yn ymadael oherwydd galwadau gyrfäol. Uchafbwynt y tymor oedd y cyngerdd yn Ystafell Pwmp Caerfaddon, pan godwyd tua £500 o bunnoedd tuag at yr anabl.

Yn gynnar yn y flwyddyn, ymddangosodd y côr ar Deledu Harlech yn canu rhai o emynau Ieuan Gwyllt, ac yna, ym mis Chwefror, recordiwyd amrywiaeth o ganeuon yn Gymraeg a Saesneg - ac mae'r record ar werth erbyn hyn.

Darperir perfformiadau arbennig gan rhai aelodau o'r côr, yn cynnwys caneuon gwahanol i raglen arferol corau, megis tonnau o'r dauddegau.

Mae aelodaeth y côr tua 90 ac mae eu rhaglen yn cynnwys tua cant o donau. Eisoes eleni, mae'r côr wedi casglu tua £1,500 o bunnoedd wrth gynnal 14 o gyngherddau.

Bydd y côr yn canu nesaf yn U.R.C., Grand Avenue, Trelai. Tra yng Nghaerfaddon, bu cyfle i arbrofi yn yr Abaty mewn paratoad i'r cyngerdd yno ym mis Chwefror nesaf. Byddant yn cystadlu ym Machynlleth, ac yn cychwyn ar y tymor newydd ar Hydref 8fed, gydag o leiaf un cyngerdd bob pythefnos. MAE DRWS AGORED.....................



# LLANGOLLEN 1981

## Gair gan ARWEL HUGHES

Mae nifer cystadleuwyr tramor sydd yn gwneud cais i gystadlu yn y saith brif gystadleuaeth, yn ddim llai na'r ffigwr rhyfeddol o 3060. Dengys hyn bod Llangollen yn enw sy'n canu cloch led-led y byd ymysg pobl a diddordebau mor amrywiol a chorau cymysg a dawnsio gwerin.

Yn y cyfanswm yma mae 77 o gorau a dawnswyr o unarddeg ar hugain o wledydd ond yn anffodus fe ellir derbyn ond deugain o'r grwpiau tramor hyn.

Mae rhaid tocio nifer y cystadleuwyr yn flynyddol. Os nad yw'r cystadleuthau'n mynd i fod yn orlawn. Ar wahan i hyn mae'n rhaid cynnig llety i'r cystadleuwyr a hyn a hyn o lety sy. Mae'n rhaid cyfyngu ar nifer y cystadleuwyr yn wyneb hyd yr Eisteddfod sef 4 diwrnod ac os am gadw at ein hamserlen.

Gofynnir i mi'n aml sut ryn ni'n dewis y corau a'r partion dawns a beth yw ein llinyn mesur ni. Mae'n amlwg bod hyn yn gymhleth ond yn gyntaf ystyriwn safon y perfformiad.

Yn bur aml barnwn trwy ystyried safon perfformiad flaenorol y grwp yn Llangollen. Er enghraifft, os daeth cor o Hwngari yn gyntaf, ail neu drydydd mewn cystadleuaeth canu meibion dair neu bedair blynedd yn ol yna mae cyfle da ganddo i gael ei dderbyn. Ond dyweder bod tri neu bedwar cor cystal yn anfon eu henwau i mewn am yr un gystadleuaeth yna mae'n rhaid inni yn anfodlon iawn weithredu'r rheol 'na dderbynnir mwy nag un grwp o'r un wlad'. Yn ein tyb ni mae hyn ond yn deg i'r holl wledydd eraill sy eisiau cael eu cynrychioli yn Llangollen. Ambell waith rhoddir blaenoriaeth i barti sy'n cystadlu ar fwy nag un gystadleuaeth boed popeth arall yn gyfartal. Mae hyn yn symleiddio'r broblem llety. Gorchwyl trist ond anorfod yw'r tocio yma ond yn sicr ceisiwn degwch uwchlaw popeth i'r llu cystadleuwyr sy am ddod yn bererinion i Langollen.

Arwel Hughes.
Cyfarwyddwr Cerdd Eisteddfod Llangollen.

LLETY NEWYDD

GWELY A BRECWAST gyda chroeso Eidalaidd yng Nghaerdydd.
173 - 175 Heol Richmond
Mr. a Mrs. Marino
Ffon: 498401

MERCHED Y WAWR

Bydd ein Hysgol Breswyl flynyddol ar Fedi 18,19 ac 20 yn Aberystwyth. Y mae lle yno i 50 yn Neuadd Pantycelyn ac i 250 yn Neuadd Penbryn, o 6.30 nos Wener tan 1.00 y Sul. Bydd ein gweithgareddau yn Theatr y Werin.

Agorir yr Ysgol gydag adloniant gan rai o ganghennau Ceredigion ar ffurf dramau seiliedig ar weithiau Kate Roberts. Fe gofiwch ei bod hi, eleni, yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed a phriodol iawn ydyw i fudiad merched ddathlu hynny a chofio am ei gwaith aruthrol o wych. Mae eleni'n flwyddyn ryngwladol yr Anabl a phriodol iawn eto yw ein bod yn rhoi sylw iddyn nhw. Fore Sadwrn, felly, y mae tri yn dod atom - Frank Letch (Llanuwchllyn), Arthur Rowlands (Caernarfon) a Ron Davies (Aberaeron), pob un ohonynt yn dioddef mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ond sydd wedi goresgyn eu hanabledd ac yn byw bywyd llawn. Daw tri, hefyd, i sôn am eu gwaith gyda'r Anabl - Ifanwy Williams, Eirlys Davies a'r Parch E.D.Morgan. Yn ystod y prynhawn bydd yr Is-bwyllgor Celf a Chrefft yn rhoi arddangosfa o nyddu, trefnu blodau a llwyfannu. Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cwrdd hefyd. Nos Sadwrn bydd Cymanfa Ganu ar batrwm y llyfryn 'Canu Cenedl'.

Fore Sul daw gwraig arbennig iawn i siarad â ni yn ein gwasanaeth crefyddol, sef Mrs. Myriel Davies, Swyddog Rhanbarthol y Cenhedloedd Unedig. Er ei bod yn brysur dros ben y mae'n ystyried dod atom ni yn achlysur pwysig. Y tâl am yr Ysgol yw £25 (Blaendal £10 erbyn diwedd Mai a'r gweddill erbyn canol Gorffennaf). Os ydych am ystafell ar y llawr isaf rhowch wybod ar eich ffurflen gais.
Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton,Caerdydd.
Cofiwch hefyd am ein safle yn Llanelwedd a'n pabell yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cyfoeth Clwyd fydd thema'r naill ac Owain Glyndŵr fydd thema'r llall. Cofiwch fod cwpanaid a thamaid gyda chroeso a gwên ym Machynlleth.

# HELO HELO HOLLOWAY!

CHWYLDROADWR MEWN AMGUEDDFA

Ag yntau'n ddeng mlwydd oed, yn fachgen ysgol yn Lloegr, sefydlodd Gymdeithas Gŵyl Ddewi ymhlith y disgyblion. Ofnai'r Prifathro bod ganddo chwyldroadwr dan ei gronglwyd a rhoddwyd rhybudd difrifol i'r troseddwr bach. Aeth yntau ati i geisio dysgu tipyn o Gymraeg!

Y bachgen mentrus hwnnw yw Ceidwad Cynorthwyol Adran Celf yr Amgueddfa Genedlaethol erbyn hyn - James Holloway - ac y mae'n dda gennym ei groesawu i'n plith. Fe'i ganwyd yn Lloegr yn 1948, ei fam yn Gymraes o Gastell Nedd a'i dad yn hannu o Wiltshire. Treuliau'r teulu eu gwyliau yn aml yng Nghymru, yn Llandeilo a Chricieth, a bu'r cysylltiadau hynny yn gymorth i gadw diddordeb yn fyw yn yr iaith ac yn helyntion y genedl Gymreig.

Treuliodd flwyddyn ym Mhrifysgol Perugia, heb fod nepell o Assisi, yn yr Eidal, ac yna aeth i astudio hanes celfyddyd i'r Courtauld Institute yn Llundain. Am wyth mlynedd, o 1972 hyd 1980, bu'n gweithio yn Oriel Genedlaethol yr Alban, yn gyntaf fel Ymchwilydd Cynorthwyol ac yna fel Ceidwad Cynorthwyol, gan arbenigo mewn dyluniadau a dyfrliwiau Prydeinig. Yng Nghaeredin digwyddodd gyfarfod â Chymro Cymraeg, Ifor Davies, ar y pryd ym Mhrifysgol Caeredin ond yn awr yn ddarlithydd yng Ngholeg Celf Casnewydd, ac yn ei gwmni ef, penderfynodd ail-afael mewn dysgu Cymraeg. Dechreuodd hefyd fynychu Ysgol Haf y Dysgwyr yng Ngholeg Harlech.

Fe'i penodwyd i'w swydd bresennol yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn 1980 ac y mae ganddo gyfrifoldeb arbennig yno dros arluniaeth yn gyffredinol. Ef, er enghraifft, sy'n gyfrifol am sefydlu'r gyfres o arddangosfeydd CYMRY ENWOG a agorwyd gyda chyflwyniad o Lloyd George. Yr arddangosfa nesaf yn y gyfres fydd un ar Penry Williams, yr artist o Ferthyr Tydfil, a bydd i'w gweld o Orffennaf 1 hyd Fedi 30. Gobeithia'n arw y daw llawer o ddarllenwyr Y DINESYDD yno i weld yr arddangosfa hon.

Os digwydd i chi ei weld ar goridorau'r Amgueddfa neu yn y cyntedd peidiwch â phetruso ei gyfarch yn Gymraeg; mae angen ymarfer arno, meddai ef. Yr un pryd gofalwch rhag dweud unrhyw beth yn gas wrtho. Mae'n digwydd bod yn bencampwr mewn ymaflyd codwm! Rhannwch ddiddordeb mewn cerddoriaeth gydag o, ar bob cyfrif, ond gochelwch rhag ei daro ar ei ysgwydd.

CANOLFAN GWYDDONIAETH COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD.

Mae'r Adran Gymraeg o'r Ganolfan Gwyddoniaeth, Mathemateg a Thechnoleg wedi derbyn cymorthdal oddi wrth y Swyddfa Gymreig tuag at gostau gweinyddol. Bydd hyn yn awr yn galluogi'r Adran i benodi teipyddes neu deipydd rhan-amser a chychwyn gohebiaeth effeithiol rhwng y Coleg ac Ysgolion Cymraeg y cylch. Eisoes ffurfiwyd grwpiau o arbenigwyr gan y Ganolfan yn y meysydd canlynol: Mathemateg, Ffiseg, Bywydeg a Daearyddiaeth. Gobeithia'r grwpiau arbennig hyn drafod trefnu gwerslyfrau a darparu adnoddau a chyfarpar ar gyfer athrawon a disgyblion yr ysgol.

Cynhaliwyd darlith agoriadol ar nos Lun, Mehefin 22ain, pan wahoddwyd y Dr. Neville Evans, A.E.M., i ddarlithio ar "Lle a natur gwaith ymarferol mewn addysg wyddonol". Cafwyd cychwyn rhagorol i waith yr Adran Gymraeg a daeth nifer dda ynghyd.

# Y CALENDR

Gorffennaf :

18 - 21, Y GYNGRES GELTAIDD yn Lannion, Llydaw (Ysgrifenner at Kendalc'h Kectiek, Centre Culturel Jean Savidan, 22300 Lannion, Llydaw.


Medi :

Sadwrn, 12: Ysgol Fore Sadwrn Charles St., i athrawon a darpar athrawon Ysgolion Sul Caerdydd, Penarth a'r Barri. Cynhelir grwpiau i drafod Meysydd Llafur bob oedran, dan 5, dan 8, dan 11, dan 15, dan 18 ac i ddosbarthiadau oedolion.

Hydref :

Cyngerdd yn Neuadd y Ddinas o dan nawdd Ysgol Feithrin Y Waun.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 15



### I Lawr

2. Doethor o feddyg yn ymhel â thair bannod ynglŷn â'r car drutaf - dyna fusnesa!(7)
3. Heb un arall (4)
4. Pan droir te Nan ni, ceir eli i'r galon (a'r clwy) (7)
5. Rhaid goddef fod y drefn i gyd o chwith cyn Eisteddfod yr Albanwyr (7)
6. Cyffesu y dylid diarddel ein rhieni cyntaf o'r Gymdeithas Fodurol, (neu'r gwrthwyneb yn hytrach) (4)
7. Byddai Cleopatra yn toddi perl yn y ddiod, ond cyhuddwr a welwn ni ynddo (7)
8. Â dillad caeth amdani, ŵyr hi sut i roi trefn ar y meddylwyr hyn? (13)
9. Gonest, diweniaith (2-6-5)
15. Y gŵr hysbys, Harris, Cwrt y ..... (5)
16. Tŷ bychan yr oedd Twm Carnabwth yn byw ynddo (5)
20. Tybed a wnaeth hwn ffortiwn o'r pyllau? (7)
21. Turio ymhlith ei bethau mae Wil, â chot aflêr amdano (7)
22. Tipyn o godiad (7)
23. Byddai yn arfer cyffelybu cynnwys y bag te i gawdel (7)
27. Dull y Deheuwr o siarad yw dweud "Nace!". Dylid rhoi trefn arno (4)
28. Llysieuyn poeth yn ôl ei enw (4)

### Ar Draws

1. Lluoedd ifanc y De yn ymgasglu yn gwmniau addolgar!!(13)
10. Llu gwynfydedig (7)
11. Cefnfor aflonydd yn rhoi bod i gi glew (7)
12. Danas (4)
13. O geisio miri, ni chewch eich bodloni (5)
14. Man arbennig ynghanol breuddwyd cas (4)
17. Mae hwn yn hen o'i roi ar erwydd (7)
18. Wedi bedd, ceir trawsnewid i orffen y frawddeg gerddorol(7)
19. Gwahanol a gwell yw M.A. na cheg afreolus (7)
22. Ymborth "hawdd ei gael mewn cyfyngder" (4,3)
24. Testun sydd yn rhan o felltith yr Eglwys (4)
25. Lleiddiad digon parchus a welir yn gwerthu cig y ddafad(5)
26. "....blodeuai Ebrill"(4)
29. Hamddena wrth gymryd Cymal 10 o'r agenda! (7)
30. Cae teg a chylch ynddo sy'n gwneud parc (7)
31. Un diwetydd! (13)

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Medi at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd. Tel: 753625, erbyn Awst 21, 1981.

# GAIR O'R PYST



Syr,

Os byddwch chi mor garedig â chaniatau i mi drwy'r Dinesydd i ddweud diolch o galon i Diana, Julia, Margaret, Sian, Julia, Ann, Sheila, Ursula a Jayne, am eu caredigrwydd yn paratoi gwledd fendigedig i ddathlu fy mhenblwydd ar 23ain o Fai. Hoffwn ddweud hefyd diolch yn fawr wrth y ffrindiau eraill sy wedi rhoi eu cymorth ac wrth bawb oedd yno i ddathlu gyda ni.

Mae rhaid i mi ddweud diolch yn fawr wrth Dic am ddod i lawr o Lundain i fod gyda ni ac yn enwedig am ei eiriau caredig pan roddodd dancard arian i mi ar ran y cyd-ddysgwyr. Doeddwn i ddim yn disgwyl unrhywbeth o gwbl ond serch hynny rwyn ei werthfawrogi yn fawr iawn; hefyd diolch am yr anrhegion eraill a'r cardiau a dderbyniais i.

I orffen gai gynnig fy niolch i'r tafarnwr ac i'w wraig am eu croeso yn y New Inn, Heol Caerffili, Caerdydd, ac i bawb unwaith eto am wneud yr achlysur yn un bythgofiadwy.

Cofion cynnes,

STEVE JONES.

---

### DATRYSIAD CROESAIR RHIF 14

Ar Draws: 1. PECHADURUS; 9. YNYSLAS; 10. DRAENEN (darn ene); 11. EURON-WY; 12. ADOLYGWYR (gydol awr y); 14. MALDODYN (dal yn ol M); 15. HAFDAI; 17. ISLYWYDD; 20. TUEDDAU; 23. SeTcArEiNllInOs; 25. S-(N-O-BYDDI)-ON; 26. TINCERA; 27. IE A NAGE; 28. ODDIEITHR; 29. OCSIYNWYR.

I Lawr: 2. EFRYDFA (fyd ef ar); 3. ADEILAD (adael di); 4. U-CHEL-G-AI-S; 5. SYM RA (y mae R.S.); 6. CYMRODEDDU (doedd Cymru); 7. PLANT DU; 8. YSGYRNYGU 13. YMRYSON; 15. HELYNTION (yn heli ton); 16. AI-L-ENED-I-G; 18. Y TABLEDI; 19. ffe-ST-OND-INni; 21. EIDDUNWN (weddnewid (heb wed)); 22. AFON GWY; 24. ISATHRO (throais).

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

## Graffigwaith Ceri Richards

13 Mehefin — 12 Gorffennaf, 1981






**DINASYDDION DIFYR**
**(Rhifyn Gorffennaf)**

FFINIAU ETHOLAETHOL I ARDAL CAERDYDD

Mae'r comisiwn ffiniau wedi ad-drefnu y ffiniau etholaethol yng Nghaerdydd i gyd-weddu yn well â ffiniau Llywodraeth Leol. Dim ond y sedd a feddiennir ar hyn o bryd gan y Llefarydd sef Gorllewin Caerdydd sy'n aros heb newid. Mae sedd Gogledd Caerdydd yn cael ei wedd-newid i fod yn Gogledd Ddwyrain Caerdydd trwy ennill y Rhath a Thredelerch oddi ar sedd James Callaghan a Llys-faen oddi ar y Barri.

Mae sedd Michael Roberts yng Ngogledd Gorllewin Caerdydd yn cadw'r enw ond yn ennill Radyr oddi wrth Y Barri, y sedd y ffurfiwyd Gogledd Orllewin Caerdydd ohoni, i raddau helaeth, yn y diwygio diwethaf. Mae sedd Y Barri'i hunan yn colli yr ardaloedd diwethaf ar gyrion Gogledd Caerdydd a hefyd yn colli unwaith eto Benarth, a dderbyniodd o Dde-ddwyrain Caerdydd yn y diwygio diwethaf. I wneud iawn am yr holl golledion hyn mae etholaeth Y Barri yn ennill, fel sy'n hollol naturiol, ardaloedd Y Bontfaen a Llanilltyd Fawr a hefyd yn newid ei henw i Fro Morgannwg.

Mae sedd Mr. Callaghan, wrth golli'r Rhath a Thredelerch, ac ennill Penarth, yn colli'r gair Dwyrain a mynd yn 'De Caerdydd'.

Beth fydd y canlyniadau gwleidyddol? O bosib bydd y Toriaid ar eu hennill. Mae'n debyg y bydd dwy sedd Gogledd Caerdydd yn parhau yn weddol sicr i'r Toriaid, er efallai y bydd tipyn o bryder i Ian Grist wrth weld lluoedd Llanrhymni yn ei erbyn.

Gall Bro Morgannwg fod yn llai sicr i Syr Raymond Gower na'r hen Farri trwy golli Radyr a Llysfaen a hefyd Penarth, ond eto bydd y Toriaid ag eitha siawns o ennill. Y gweddnewid mwya mae'n sicr yw hwnnw yn Ne Caerdydd lle bydd Mr. Callaghan yn llawer llai sicr wedi colli pleidleisiau Llanrhymni a chael yn eu lle Doriaid Penarth. Pan oedd Penarth yn yr hen Dde-ddwyrain, Caerdydd, fe ystyriwyd y sedd yn 'ymylol' hyd yn oed gyda Llanrhymni. A bydd Mr. Callaghan yn chwennych bod yn olynydd i George Thomas, neu hyd yn oed gael sedd hollol ddiogel yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Wrth gwrs fe all y sefyllfa gael ei gweddnewid o'r hen batrymau trwy weithrediadau y Blaid Ddemocrataidd Sosialaidd neu, o gofio canlyniad annisgwyl etholiad y Cyngor Sir yn Ninas Powys, hyd yn oed bod dinasyddion Caerdydd yn cofio ym mha wlad y maent yn byw trwy anfon Cenedlaetholwr i San Steffan!

Bu farw'r Parchedig Denzil Harries yn Ysbyty Mynydd Bychan, ym Mehefin. Bu'n weinidog yn Ferndale cyn symud wedyn i Lundain. Tua dwy flynedd yn ôl ymddeolodd oherwydd afiechyd a daeth i Gaerdydd i fyw yn agos at ei unig ferch, Glesni, ei gŵr Dr. David Williams, a'u tri phlentyn. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu cyfan.

## NODION O'R TABERNACL

Emyn a gyfansoddwyd ar achlysur dathlu agor Capel y Tabernacl, Caerdydd. Fe'i canwyd gan blant a ieuenctid yr eglwys yn ystod cyrddau'r dathlu - ar yr alaw Plaisir d'Amour.

Yn llon ein cân fe gofiwn ni yn awr
Am ddechrau Achos hoff i'r Iesu mawr.

Pan oedd Caerdydd heb gapel yn yr Ais,
Fe glywodd rhywrai'r nefol dyner lais.

A'u llafur hwy a droes y gwyllt yn ardd,
A'r meini mud yn dabernacl hardd.

Ar hyd eu hoes ein tadau ddaeth yn llu
I blygu glin i Bensaer mawr y Tŷ.

A ninnau nawr ym mlwyddyn naw wyth un
A rown ein clod i'r annwyl Fab y Dyn.

Am Eglwys Crist a theulu mawr y Saint
Diolchwn mwy am anghymarol fraint.

A'n gweddi yw: O, boed i ni o hyd
Barhau'n ddisgyblion Iesu yn y byd.

Ein calon fo yn hyfryd demlau byw
I foli byth y bendigedig Dduw.

Robin Gwyndaf.

# DIWEDD Y GÂN - ETO!

Cyfeiriwn eto - heb ymddiheurad - at Adroddiad y Trysorydd ar y sefyllfa ariannol yn rhifyn mis Mehefin.

Tipyn yn siomedig oedd yr ymateb ar y cyntaf ond erbyn hyn fe ddaeth rhyw hanner dwsin o sieciau i mewn oddi wrth unigolion a chymdeithasau. Gwerthfawrogwn a diolchwn am bob un o'r rhoddion hyn. Anfonnir derbyneb yn y man.

Fel arfer nid yw'n bolisi gan y Dinesydd i roi enwau cyfranwyr ond teimlwn ei fod yn iawn i dorri'r rheol y tro hyn. O fewn diwrnod neu ddau ar ôl i rifyn Mehefin ymddangos fe ddaeth siec i law am £50 gan Mr. Gwilym Roberts ar ran Cymdeithas y Dysgwyr yng Nghanolfan yr Urdd. Yn ei lythyr llongyfarchai'r Dinesydd ar gadw i fynd er gwaethaf pob anhawster a dymunodd pob hwyl i'r papur a diolchai i'r Pwyllgor Rheoli am ei holl waith dros sicrhau fod gennym bapur bro Cymraeg yn y Brifddinas.

Ni ddywedwn lawer mwy ond ceisiwn fynegi ein diolch mawr i'r Gymdeithas hon a fu'n gefn i'r Dinesydd o'r cychwyn ac yn gyfranwyr hael a chyson. Efallai bydd clywed am faint y cyfraniad hwn yn codi cywilydd ar ambell un ohonom.

Soniodd y Trysorydd yn ei Adroddiad am yr angen am lawer mwy o gyfranwyr cyson sydd yn cyfrannu yn flynyddol neu yn fisol wrth drosglwyddo arian o'u Cyfrif Banc personnol i Gyfrif Banc y Dinesydd. Dyma gyfle eto i'r darllenwyr sydd heb wneud hyn o'r blaen neu sydd eisiau codi'u cyfraniadau trwy gwblhau'r ffurflen Archeb Banc sydd ar y dudalen hon a'i hanfon yn ôl at y Trysorydd ar fyrder.

---

ARCHEB BANC

AT Y RHEOLWR ..................................(Enw'r Banc)

..................................(Cyfeiriad y Banc)

..................................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, Caerdydd, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd (Rhif Cenedlaethol 30-12-50) i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ...........(enw'r mis) bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb hon gennyf mewn ysgrifen y swm o .......... (mewn geiriau) £...........(mewn ffigurau).

(ARWYDDWYD) ..............................................

(CYFEIRIAD) ..............................................

..............................................

Rhif ac enw'r Cyfrif ..............................................

..............................................

Dyddiad ..............

PWYSIG: Ar ol cwblhau'r archeb banc uchod a fyddwch gystal a'i hanfon at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, Caerdydd. CF2 6UN, yn hytrach na'i hanfon at eich Banc. Bydd y Trysorydd yn gallu nodi, felly, fanylion pob Archeb.

---

DIOLCH POBL FWYTEIG

Rhaid cyfeirio'n arbennig at ansawdd y bwyd yn y barbeciw yn Nhrewallter Fawr ar noson fawr Y DINESYDD. Nyni a fu'n claddu, ond dwy a fu'n darparu'r bwyd sef Non Evans a Shan Emlyn. Bu'r ddwy wrthi'n brysur drwy fore a phnawn dydd Gwener. Diolch yn fawr genod.

Y LOCUSTIAID DIFAOL.

# PENODIAD HUW DAVIES

Mae'n bleser gan Fwrdd HTV gyhoeddi fod yr Arglwydd Harlech a'r Cyfarwyddwyr wedi ethol dau gyfarwyddwr gweithredol i ymuno a phrif Fwrdd HTV Cyf.

O Orffennaf 1af, 1981 bydd Mr. Huw Davies yn Gyfarwyddwr Rhaglenni, Cymru, a Mr. Ron Evans yn Gyfarwyddwr Rhaglenni, Gorllewin Lloegr.

Mae'r ddau gyfarwyddwr gweithredol newydd wedi bod gyda HTV o'r cychwyn cyntaf, ac wedi gweithio i'n rhagflaenydd hefyd; eisoes mae Mr. Davies wedi rhoi 17 mlynedd o wasanaeth i Deledu Annibynnol, a Mr. Evans 20 mlynedd.

Mae Mr. Davies a Mr. Evans yn gynhyrchwyr rhaglenni profiadol, ac mae eu dyrchafiad i'r prif Fwrdd yn cryfhau Grwp Rheoli HTV yn y datblygiadau eang sydd o'n blaen, ac sydd angen cydgysylltu manwl iawn gan reolwyr uwch.

Meddai Mr. Huw Davies:

"Rydym ar drothwy y datblygiadau mwyaf cyffrous erioed ym myd darlledu yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen gyda brwdfrydedd at baratoi rhaglenni ar gyfer Sianel Pedwar Cymru a fydd yn sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw yn dechrau yn dda ac sydd mor hanfodol i'w lwyddiant.

"Ac yr un mor bwysig mae gennym o'r diwedd gyfle yn HTV Cymru i ad-ennill y rhan honno o'n cynulleidfa sydd ar hyn o bryd yn gwylio gorsafoedd teledu eraill. Mae'r ffaith bod llawer o bobl Cymru yn gwylio rhaglenni o Orllewin a Gogledd Lloegr er mwyn osgoi y rhaglenni nad ydynt yn eu deall yn hytrach na gwylio'r gwasanaeth ardderchog sydd gennym o Gymru ar gyfer pobl Cymru wedi bod yn gryn boen i mi. Ac fel rhan o'n gwasanaeth mwy eang ar gyfer Cymru rydym ar hyn o bryd yn paratoi stori gyfres newydd boblogaidd sydd wedi ei lleoli yn y de ddiwydiannol: bydd llawer rhagor o raglenni poblogaidd yn dilyn.

Yr hyn y gobeithiaf ei gyflawni yw y bydd y di-Gymraeg yng Nghymru yn dod i adnabod HTV Cymru fel eu gwasanaeth arbennig hwy."